Uchafbwyntiau Cymru
2014

THE CROWN ESTATE

Ystâd y Goron yng Nghymru



# Busnes masnachol blaengar



# yn creu gwerth sylweddol



# tu hwnt i adenillion ariannol

# Cyflwyniad

## Sylfaen ein gwaith yng Nghymru yw ymrwymiad i ddarparu gwerth parhaus a chymryd ein cyfrifoldebau i adnoddau naturiol o ddifrif.

**Ein gweledigaeth yw bod yn fusnes masnachol blaengar sy'n creu gwerth sylweddol tu hwnt i adenillion ariannol.**

**Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i dyfu ein busnes, gan berfformio'n well na'r farchnad tra'n sicrhau adenillion cynaliadwy hirdymor a chael effaith gadarnhaol drwy Gyfanswm ein Cyfraniad i'r Deyrnas Unedig.**

**Ym mhopeth a wnawn, cawn ein llywio gan ein gwerthoedd – masnacheiddiwch, integriti a stiwardiaeth.**

**Mae ein gweithgareddau'n cwmpasu datblygiadau ynni, gwledig ac arfordirol, a sectorau manwerthu sy'n hollbwysig i sicrhau dyfodol economaidd cryf i Gymru**

## Y ffordd y gweithredwn

Mae ein harbenigedd masnachol yn ein galluogi i roi cyngor a chefnogaeth i sefydliadau'n amrywio o gyrff masnachol i asiantaethau'r llywodraeth. Yn gynyddol dewiswn gydweithredu gyda phartneriaid sy'n angerddol am gyflawni'r gorau i Gymru. Deallwn nodau Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, a gweithiwn gyda nhw i gyflawni eu nodau strategol, yn rbennig yn y sector adnewyddadwy cynyddol.

Oherwydd bod gennym ddiddordebau gwledig helaeth ynghyd â chyfrifoldebau rheoli ar gyfer y blaendraeth yng Nghymru, rydym hefyd yn ymgysylltu gyda chymunedau llai a all, gyda'n help a'n cyngor, wireddu cyfleoedd masnachol o fudd i'r economi lleol. Fel rheolwyr gwely'r môr mae gennym ffocws cryf ar ynni adnewyddadwy, gan chwarae rôl hollbwysig i gefnogi'r sector. Gwyddom fod seilwaith cadarn ar gyfer y diwydiant twf hwn yn allweddol i'w lwyddiant yn y dyfodol.

## Ble y gweithredwn

Drwy ein cyfrifoldebau am wely'r môr allan i 12 milltir forol, mae gennym ddiddordebau mewn adnewyddadwy, pibelli olew a nwy, cloddio am agregau morol, ceblau pŵer a thelathrebu. Yn ychwanegol mae gennym hawliau penodol dros y sgafell gyfandirol hyd at 200 milltir forol (ac eithrio hydrocarbonau) ac yn gyfrifol am tua 65 o'r blaendraeth yng Nghymru.

Rydym yn berchen dwy ystâd wledig ym Mhumlumon a Thyndyrn yn gyfanswm o 1,310 hectar (3,238 erw) o dir amaethyddol a 26,900 hectar (66,470 erw) arall o dir comin yng Nghymru. Mae diddordebau economaidd ychwanegol yn cynnwys porthladdoedd, marinas a ffermydd gwynt ar y tir, ac o fewn ein portffolio masnachu rydym yn berchen ar ganolfan siopa Morfa yn Abertawe.

Ar y tir, rydym yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o berchnogaeth mwynau'n unig a chafodd wyth safle eu lesu ar gyfer cloddio am fwynau., Rydym hefyd yn berchen adneuon aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol, lle bynnag y maent yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig ac mae gennym ddwy les ar waith ar gyfer cloddio am aur yng Nghymru.



> Fel rheolwyr gwely'r môr mae gennym ffocws cryf ar ynni adnewyddadwy, gyda rôl hollbwysig wrth gefnogi'r sector.




# Uchafbwyntiau ariannol Cymru

| Sut y gwnaethom berfformio | **Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m** | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2013 £m | **Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m** | Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2013 £m | **Cynnydd o'r flwyddyn flaenorol %** | **Canran o'r cyfanswm %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | **9.7** | 8.6 | **350.8** | 332.2 | **12.8** | **2.8** |
| Gwarged gros | **9.4** | 8.2 | **304.9** | 283.2 | **14.6** | **3.1** |
| **Gwerth eiddo** | **160.6** | 139.5 | **8,914.7** | 7,752.2 | **15.1** | **1.8** |
| Buddsoddiadau cyfalaf | **0.4** | 1.6 | **511.7** | 324.3 | | |
| Derbyniadau cyfalaf | **–** | 0.7 | **457.2** | 351.9 | | |


| Refeniw yn ôl gweithgaredd | **Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m** | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2013 £m |
|---|---|---|
| Arfordirol | **1.5** | 1.3 |
| Ceblau/pibelli | **0.1** | 0.1 |
| Amaethyddiaeth | **0.1** | 0.1 |
| Coedwigaeth | **–** | – |
| Mwynau | **0.4** | 0.4 |
| **Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol** | **2.1** | 1.9 |
| Ceblau//pibelli | **0.6** | 0.3 |
| Treillio | **0.8** | 0.7 |
| Adnewyddadwy | **1.2** | 0.7 |
| **Cyfanswm Ynni a Seilwaith** | **2.6** | 1.7 |
| **Cyfanswm trefol** | **5.0** | 5.0 |
| **Cyfanswm** | **9.7** | 8.6 |

| Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd | **Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m** | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2013 £m |
|---|---|---|
| Arfordirol | **16.4** | 16.4 |
| Ceblau/pibelli | **1.8** | 1.6 |
| Amaethyddiaeth | **4.5** | 4.0 |
| Coedwigaeth | **0.1** | 0.4 |
| Mwynau | **3.2** | 3.1 |
| **Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol** | **26.0** | 25.5 |
| Ceblau//pibelli | **8.6** | 4.1 |
| Treillio | **6.2** | 4.0 |
| Adnewyddadwy | **39.1** | 27.1 |
| **Cyfanswm Ynni a Seilwaith** | **53.9** | 35.2 |
| **Cyfanswm trefol** | **80.7** | 78.8 |
| **Cyfanswm** | **160.6** | 139.5 |

**Refeniw yn ôl gweithgaredd 2014** £m




**Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd 2014** £m






**Alison Nimmo CBE**
Llofnodwyd gan yr Ail Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifeg ar ran y Bwrdd

19 June 2014

# Ystâd y Goron yng Nghymru

## Rheolwn ein hasedau i hybu adenillion masnachol ond hefyd i greu sylfaen gref a all fod yn sylfaen i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer cymunedau ledled Cymru

### Gweithio dros Gymru ffyniannus

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn dal i fod ag ymrwymiad cryf i ynni adnewyddadwy ar y môr a pharhawn i gefnogi datblygiad yn y sector yma. Er nad ydym yn ariannu prosiectau unigol cyfrannwn arbenigedd i helpu dileu'r risg o brosiectau, gan eu gwneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr. Cydweithredwn i oresgyn cyfyngiadau technegol a ffisegol ac ariannu ymchwil sy'n ystyried y ffordd orau i gydbwyso gofynion y prosiectau hyn gyda'r cyfrifoldeb am ddiogelu'r amgylchedd morol.

Gwelwyd potensial ynni adnewyddadwy yn symud i gyfnod newydd eleni, wrth i rai prosiectau cynnar syrthio ymaith gan adael eraill fydd yn arwain yn y diwydiant hwn sy'n dal i dyfu. Mae gan Gymru ddwy fferm wynt sy'n gweithredu'n llawn ger arfordir y gogledd yn North Hoyle, fferm wynt ar y môr raddfa fawr gyntaf y Deyrnas Unedig a Gwastadeddau'r Rhyl. Cyrhaeddodd incwm gwynt ar y môr ar gyfer Cymru £1.2 miliwn yn 2013/14.

Yn y 12 mis diwethaf mae datblygiad wedi symud ymlaen ar safleoedd pellach ar gyfer gwynt ar y môr. Un cynllun o'r fath yw fferm wynt Gwynt y Môr oddi ar Ynys Môn, un o'r cynlluniau Cylch 2 y rhagwelir fydd yn cynhyrchu 576 MW o bŵer, a allai gyflenwi trydan i 400,000 o gartrefi. Mae'r gwaith adeiladu wedi ei seilio mewn porthladdoedd lleol, yn cynnwys Mostyn ar yr Afon Ddyfrdwy, gyda sylfeini, is-orsafoedd ar y môr a cheblau allforio pŵer yn awr wedi eu gosod.

Pan fydd gwaith wedi ei gwblhau ar ddiwedd eleni, caiff pob un o'r tair fferm wynt eu rheoli o Fostyn. Mae RWE Innogy, a ddatblygodd y tair fferm, yn darparu £19 miliwn mewn cyllid cymunedol ar hyd oes y prosiect.

Ym mis Rhagfyr 2013, gorffennodd RWE Innogy ei gytundebau gydag Ystâd y Goron yng nghyswllt Parth Môr Hafren, gan olygu fod prosiect Arae'r Iwerydd yn awr wedi'i derfynu. Er nad oes gan Ystâd y Goron unrhyw gynlluniau i wneud gwaith pellach ar Barth Môr Hafren am y dyfodol rhagweladwy, sylweddolwn fod yr ardal yn parhau'n adnodd da gyda photensial hirdymor ar gyfer datblygu. Mae gweithgaredd gan Celtic Array Cyf ar barth Môr Iwerddon yn dal i ganolbwyntio ar Brosiect Rhiannon, y fferm wynt gyntaf arfaethedig.

Mae amrediad llanw yn adnodd ynni posibl arall ac rydym wedi ariannu ymchwil i'w addasrwydd fel ffynhonnell o ynni amrediad llanw. Yn 2012 fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau astudiaeth yn mapio adnoddau pŵer tonnau a llanw posibl y Deyrnas Unedig, a ganfu y gallai cynlluniau ynni amrediad llanw ddarparu hyd at 25 awr terawatt y flwyddyn, yn gyfartal â 14 GW o gapasiti newydd.

Ar ddiwedd 2013 fe wnaethom wahodd partïon â diddordeb i rannu eu barn am ddulliau posibl i lesu prosiectau amrediad llanw. Dangosodd hyn fod cryn ddiddordeb mewn datblygu prosiectau yng ngogledd a de Cymru, yn cynnwys Môr Hafren, yn y blynyddoedd nesaf. Mae cynigion ar gam cynnar ond edrychwn am gynnydd pellach dros y flwyddyn i ddod. Yn dilyn adborth rydym yn awr yn adolygu ein sefyllfa ar ryddhad posibl hawliau gwely'r môr ar gyfer cynlluniau amrediad llanw, i weld beth sydd angen ei wneud fel bod adborth gan randdeiliaid yn gydnaws â'n hamcanion ein hunain.

Mae nifer o brosiectau tonnau a llanw yn cael eu datblygu ger arfordir Cymru ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys Moelrhoniaid Môn, a ddatblygir gan Siemens Marine Current Turbines, ynghyd â phrosiectau gan Tidal Energy Cyfyngedig yn Swnt Dewi a Phenmaendewi. Yn ogystal mae Marine Energy Pembrokeshire, cynllun hyrwyddo a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a phartïon eraill yn cynnwys Ystâd y Goron, wedi parhau i annog datblygiad tonnau a llanw yn ardal Sir Benfro. Gall ardaloedd pellach o wely'r môr gael eu datblygu yn y dyfodol yn dilyn cwblhau proses lesu tonnau a llanw ddiweddaraf Ystâd y Goron a ddechreuodd ym mis Hydref 2013 a ddaw i ben yn nes ymlaen yn 2014.

Maes arall lle profodd cydweithredu yn allweddol i lwyddiant yw'r potensial i fewnforio trydan o brosiectau ynni adnewyddadwy y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn defnyddio ceblau tanfor.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Iwerddon wedi ymrwymo i Femorandwm Dealltwriaeth ac yn edrych sut y gallai masnachu ynni weithio'n llwyddiannus, gan ddod â cheblau tanfor i Gymru. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ystyried sut y gellid datblygu ceblau tanfor a chyfleusterau cysylltiedig tra'n cadw ein hymrwymiad i gynaliadwyedd hirdymor.

Bu Ystâd y Goron, gyda'i chylch gorchwyl i reoli gwely môr y Deyrnas Unedig a llawer o'r blaendraeth, mewn sefyllfa dda i helpu hybu datblygu a chyflenwi ffynonellau newydd o ynni. Fe wnaethom lofnodi cytundeb gyda Scottish Power Transmission a National Grid ar gyfer cyswllt HVDC Gorllewinol, y cyswllt tanfor cyntaf erioed rhwng Lloegr, yr Alban a Chymru. Bydd y cyswllt yma'n darparu tua 2,000 MW, sy'n ddigion i roi pŵer i fwy na 4 miliwn o gartrefi'r flwyddyn.

## Rheoli amgylchedd cyfoethog

Rydym yn parhau i weithio gyda'n tenantiaid ar ein stadau gwledig ym Mhumlumon a Thyndyrn ynghyd â'r bobl sy'n defnyddio 26,900 hectar (66,470 erw) o dir comin yn bennaf ar gyfer pori defaid. Ein rôl yw cefnogi rheolaeth dydd i ddydd a sicrhau cadw gwerth hirdymor y stadau. Mae ein stad yn Nhyndyrn yn cynnwys yr Abaty byd-enwog, sy'n parhau yng ngofal Cadw, y gwasanaeth amgylchedd hanesyddol cenedlaethol.

Ynghyd â'r daliadau gwledig yma, mae gennym hefyd wyth safle cloddio mwynau yng Nghymru sydd ar lês i weithredwyr. Mae'r cynhyrchu yn cynnwys agregau calchfaen, craig igneaidd a llechi.

Mae adnoddau mwynol hefyd yn ymestyn i gloddio agregau morol, y dyfarnwn drwyddedau ar ei gyfer. Defnyddiwyd agregau morol mewn nifer fawr o gynlluniau proffil uchel yng Nghymru, yn cynnwys croesiad Twnnel Conwy, Ail Groesiad yr Hafren, Morglawdd Bae Caerdydd, Terfynell Fferi Caergybi a therfynell olew Aberdaugleddau. Er bod arwyddion o adferiad yn y farchnad adeiladu yn ail hanner 2013, roedd cloddio am agregau morol o drwyddedau Cymru yn wastad yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r 12 mis blaenorol, ar tua 750,000 tunnell fetrig.

Serch hynny mae cloddio am fwynau'n dod â nifer o fuddion economaidd mewn cyflogaeth uniongyrchol a hefyd drwy weithgaredd ychwanegol ym mhorthladdoedd Cymru gyda Chasnewydd, Caerdydd, Llansawel, Abertawe, Porth Tywyn, Penfro a Phorth Penrhyn oll yn gweld traffig mwynau morol. Mae agregau morol yn neilltuol o bwysig i'r sector adeiladu yn ne Cymru, lle caiff mwy na 80 y cant o'r tywod a ddefnyddir yn y farchnad ei dreillio o'r môr.

Mae gennym ymrwymiad i reoli ein hadnoddau mewn modd cyfrifol, felly rydym yn parhau i weithredu mesurau i sicrhau fod y gwaith cloddio am fwynau'n dilyn arfer da. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn amnewid y system fonitro electronig a ddefnyddir ar bob llong dreillio agregau i fonitro eu bod yn cydymffurfio gyda thelerau eu trwyddedau. Rydym yn adolygu'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn rheolaidd i sicrhau fod y diwydiant treillio yn dilyn arfer gorau ac yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Fel rhan o hyn rydym wedi cyhoeddi llyfryn yn rhoi trosolwg o allu a phortffolio'r busnes agregau morol.



> Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad yng Nghymru drwy ein gwaith a chyswllt rheolaidd gyda rhanddeiliaid, Llywodraeth a'r cyhoedd.



# Ystad y Goron yng Nghymru parhâd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dyfarnu caniatâd trwyddedau morol newydd 15 mlynedd ar gyfer cloddio o Hilbre Swash oddi ar ogledd Cymru, gan roi ffynhonnell hirdymor o agregau morol ar gyfer y rhanbarth. Disgwyliwn i weithgaredd mwynol gynyddu wrth i adferiad y sector adeiladu barhau.

Fel yr addaswn i newid hinsawdd, defnyddir llawer o dywod a gro morol mewn cynlluniau adlenwi traethau. Caiff agregau eu pwmpio'n syth o'r llongau treillio ar y traethau, gan roi diogeliad arfordirol, gwella'r gwell amwynder a rhoi sicrwydd i'r economi lleol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y prosiect i adlenwi traethau ym Mae Colwyn yn ystod 2013 a 2014. Mae Ystâd y Goron yn siarad gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol am ddulliau blaengar i reoli'r arfordir, gan ddefnyddio mwynau morol a fyddai'n galluogi cymunedau arfordirol i addasu a sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor.

Yn nhermau gwerth, mae Parc Siopa Morfa yn Abertawe yn rhan sylweddol o'n diddordebau yng Nghymru. Fe wnaethom brynu'r ganolfan 346,000 tr sg yn 2011 ac mae mewn lleoliad da yn agos at ganol y ddinas a'r M4. Mae tenantiaid yn cynnwys William Morrison, TK Maxx, New Look, Next, B&Q a megastôr DSG Curry.

## Datblygu potensial arfordirol

Mae llawer o gymunedau o amgylch arfordir Cymru sy'n dymuno creu cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Ein ffocws yw helpu sefydliadau lleol i wireddu eu cynlluniau, p'un ai yw hynny i wella cyfleusterau a mynediad i weithgareddau hamdden, neu i gefnogi cynlluniau amgylcheddol fydd yn denu refeniw a swyddi newydd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant hamdden morol i Gymru drwy noddi Sioe Gychod Cymru-gyfan yn ogystal â gweithredu ein marinas yng Nghonwy a Deganwy.

Mae ein Cronfa Stiwardiaeth Forol yn cefnogi cynlluniau cymunedol yng Nghymru sy'n hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o'r arfordir. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau ein cefnogaeth ar gyfer Gwarchodfa Natur RSPB Conwy, ac wedi rhoi £62,000 tuag at hailddatblygu. Adeiladwyd y warchodfa ar dir Ystâd y Goron ac mae ar les i'r RSPB ar gyfer cadwraeth a rheolaeth yr amgylchedd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu adeilad arsylwi newydd a adeiladwyd gyda gwellt o'n stad Tabley yn Swydd Caer ac a adeiladwyd gan wirfoddolwyr o'n staff. Mae defnyddio gwellt wedi sicrhau mai effaith weledol isel sydd gan yr adeilad ac ni fydd angen ei wresogi yn y gaeaf, gan roi amwynder cynaliadwy ond cysurus i ymwelwyr.

Mae'r gronfa stiwardiaeth hefyd wedi darparu £30,000 i osod llwyfan glanio yn Nhrefdraeth Parrog sy'n rhoi mynediad diogel i'r môr ar bob cyflwr o'r llanw a £30,000 arall i adeiladu llithrfa ôl-dynadwy ym Mhwllheli i'w defnyddio gan Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a chanolfan digwyddiadau. Rydym hefyd wedi cefnogi datblygwyr llanw Marine Energy Pembrokeshire a chyrff statudol i gydweithio i oresgyn rhwystrau posibl i gydsyniad.

## Dewis dull cydweithredol

Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i Gymru drwy ein gwaith a chyswllt rheolaidd gyda rhanddeiliaid, Llywodraeth a'r cyhoedd. Caiff ein perthynas waith agos gyda Llywodraeth Cymru ei nodi yn ein cyd Femorandwm Dealltwriaeth sy'n diffinio cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd y ddau sefydliad.

Rhoddwn gyngor i Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau drwy ymatebion i ymgynghoriadau a drwy gyfrannu at a chymryd rhan mewn pwyllgorau cynghori a gweithgorau technegol. Gyda chreu Cyfoeth Naturiol Cymru y llynedd yn cyfuno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru, rydym wedi sefydlu perthynas gynnar gyda'r corff newydd, a disgwyliwn weithio'n agos gyda'i wahanol dimau.

Ers ein hadroddiad diwethaf rydym wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo i ddatblygu eu system cynllunio morol statudol. Rydym hefyd wedi cwrdd gyda Phrif Weinidog Cymru a gweinidogion eraill ac wedi rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk). Edrychwn ymlaen at barhau'r dialog gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar ganlyniad gwaith y Comisiwn.

# Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i Gomisiynwyr Ystâd y Goron

Archwiliais y datganiadau ariannol ar gyfer Ystâd y Goron am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014, y mae'r wybodaeth ariannol o fewn tudalen uchafbwyntiau ariannol Cymru yn deillio ohonynt, yn unol gyda'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio. Yn fy adroddiad dyddiedig 10 Mehefin 2014, mynegais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol y mae'r wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt.

Yn fy marn i, cafodd yr wybodaeth ariannol ategol eu dethol yn gywir, ym mhob cyswllt sylweddol, o'r cofnodion cyfrifeg a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol archwiliedig y maent yn deillio ohonynt.

I gael dealltwriaeth well o sefyllfa ariannol Ystâd y Goron a chanlyniadau ei weithgareddau am y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylid darllen yr wybodaeth ariannol mewn cysylltiad gyda'r datganiadau ariannol yr oedd yr wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt a'n hadroddiad archwilio ar hynny.

**Syr Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

20 June 2014

Ystâd y Goron yng Nghymru

www.thecrownestate.co.uk
@TheCrownEstate